# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 17-08)

Dyddiad: 1 Gorffennaf 2008
Amser: 8.45am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 1 Gorffennaf 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC, Alun Davies AC a Joyce Watson AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Diolchodd y Cadeirydd i Irene James AC a Sandy Mewies AC (a oedd yn dirprwyo ar ei rhan yn aml) am eu cyfraniadau i waith y pwyllgor a chroesawodd Joyce Watson AC i'r pwyllgor.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol).

### SLC173 - Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 18 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 18 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar 19 Mehefin 2008.

### SLC174 - Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 24 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar 17 Gorffennaf 2008

Is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad y caiff y pwyllgor gyflwyno adroddiad arni - Rheol Sefydlog 15.6(i) Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 25: Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Ochr Ddeheuol Basn y Rhath, Caerdydd) 200-

### SLC161 - Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Ochr Ddeheuol Basn y Rhath, Caerdydd) 200-

### Gweithdrefn Cynulliad Arbennig (Rheol Sefydlog 25). Fe'i gwnaed 200- . Yn dod i rym 200-.

Ceir Adroddiad y pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.6(i) ar yr Offeryn drafft sy'n ddarostyngedig i Weithdrefn Cynulliad Arbennig (Rheol Sefydlog 25)

yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn**.**

### Eitemau eraill o fusnes

Yn dilyn penderfyniad y pwyllgor ar 10 Mehefin i gynnal ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig, nododd Aelodau fod yr ymgynghoriad wedi'i lansio a bod y cylch gorchwyl cytûn a'r alwad am dystiolaeth wedi'u rhoi ar dudalen y pwyllgor ar wefan y Cynulliad. Bydd y pwyllgor yn ystyried ymatebion ac yn casglu tystiolaeth yn ystod tynor y gwanwyn.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
1 Gorffennaf 2008

## Atodiad 1

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-17-08)

### SLC161

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.6(1) bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Ochr Ddeheuol Basn y Rhath, Caerdydd) 200-

Byddai'r Gorchymyn drafft hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gaffael tir yn orfodol ger Basn y Rhath, Bae Caerdydd. Byddai hefyd yn golygu rhyddhau hawliau sydd eisoes yn bodoli a.y.b. a chaffael hawliau newydd.

Gweithdrefn: Gweithdrefn Cynulliad Arbennig Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.6(i).

Mae paragraff 4(3) testun Saesneg y Gorchymyn yn cynnwys yr ymadrodd canlynol: "the land over which the new rights is acquired ". Nid yw'n glir a fwriadwyd cyfeirio at y tir a gafwyd (os hynny mae "is" yn gywir, ond mae rhywbeth arall ar goll) neu at hawliau a gafwyd, (os hynny dylid newid yr "is" i "are"). Mae'r testun Cymraeg yn tybio mai'r diwethaf sy'n gywir.

I'r diben o ddehongli, mae'n rhaid darllen y ddau destun gyda'i gilydd, fel mai'r testun Cymraeg eglur sy'n effeithiol. Fodd bynnag, pan fydd deddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar hawliau eiddo unigolion a chwmnïau preifat (a all ddeall y testun Cymraeg neu beidio), nid oes lle i amwysedd.

Pe bai hwn yn Offeryn Statudol, byddai'n destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 (vi) - drafftio diffygiol.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
1 Gorffennaf 2008

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

### Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Ochr Ddeheuol Basn Y Rhath, Caerdydd) 200-

Mae'r Llywodraeth wedi rhoi ar ddeall ei bod yn derbyn bod gwallau drafftio'n ymddangos yn y testunau Cymraeg a Saesneg o baragraff 4(3) o'r Gorchymyn drafft.

Bwriadwyd i'r ymadrodd yn y testun Saesneg "the land over which the new rights is acquired" i ddarllen "the land over which the new right is acquired" (h.y. yn y cymal hwn dylai "rights" ddarllen "right"). Dylai'r testun Cymraeg ddarllen mewn dull cyfatebol. Bwriad y cymal, pan gaffaelir hawl newydd, o dan y Gorchymyn, dros dir sy'n ffurfio man agored, ond na chaffaelir perchenogaeth o'r tir hwnnw, yw y caiff y tir hwnnw ei ryddhau o bob hawl etc. y bu cyn hynny'n ddarostyngedig iddynt i'r graddau yr oedd parhad yr hawliau blaenorol hynny etc. yn anghyson ag arfer yr hawl newydd a gaffaelwyd o dan y Gorchymyn.

Bwriad y Llywodraeth yw cywiro'r gwallau hynny yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg pan fydd y Gweinidog yn gwneud y Gorchymyn.

Yna byddai'r testun Saesneg diwygiedig o baragraff 4(3) yn darllen: "As from the date on which this order becomes operative or the date on which any new right is vested in the acquiring authority, whichever is the later, the land over which the new right is acquired will be discharged from all rights, trusts and incidents to which it was previously subject so far as their continuance would be inconsistent with the exercise of that new right."

Yna byddai'r testun Cymraeg diwygiedig o baragraff 4(3) yn darllen: "O'r dyddiad y daw'r gorchymyn hwn i rym neu'r dyddiad y caiff unrhyw hawl newydd ei breinio yn yr awdurdod caffael, pa un bynnag sydd ddiweddaraf, caiff y tir y caiff yr hawl newydd ei chaffael drosto ei ryddhau rhag pob hawl, ymddiriedolaeth a digwyddiad yr oedd yn amodol arnynt yn flaenorol i'r graddau y byddai eu parhad yn anghyson ag ymarfer yr hawl newydd hon."

Ym marn y Llywodraeth ni ddylai'r gwallau hyn fod wedi camarwain na rhagfarnu unrhyw bersonau y mae'r Gorchymyn drafft yn effeithir arnynt ac o'r herwydd nid oes angen ailgyflwyno nac ailgyhoeddi'r Gorchymyn drafft o dan Reol Sefydlog 25 y Cynulliad. Yn ystod cyfnod hybu'r gorchymyn prynu gorfodol cynhaliwyd ymgynghoriadau â'r gymuned leol ac â chyrff y gallai effeithio arnynt. Rhoddwyd cyfle hefyd i bersonau y gallai effeithio arnynt wrthwynebu'r Gorchymyn, cyn iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 25. Ni ddaeth gwrthwynebiadau neu sylwadau i law ar baragraff 4(3) ac, yn y cyfnod pan osodwyd ef gerbron, nid oedd gwrthwynebiad o unrhyw fath yn bodoli.